# Adroddiad Arolygu

**Melanie Hughes**

**Y Felinheli**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 10 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Cliciwch neu pwyswch yma i gynnwys testun.<br>22 Mawrth 2017 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac nid yw'n gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Digonol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Digonol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb


Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo. Maent yn cael rhai dewisiadau addas i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r gwarchodwr plant. Maent yn ymddiddori yn eu gweithgareddau chwarae a dysgu ac yn mwynhau datblygu eu dychymyg. Mae'r plant yn meithrin eu hannibyniaeth mewn ffordd briodol.

Mae'r gwarchodwr plant yn datblygu ei dealltwriaeth ac mae'n gweithio tuag at roi'r rhan fwyaf o bolisïau a gweithdrefnau ar waith yn ddigonol. Mae ganddi ffordd gynnes a chyfeillgar o roi gofal. Mae'n canmol y plant yn rheolaidd am eu hymdrechion. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu rhai gweithgareddau addas i ddatblygu chwarae a dysgu'r plant.

Mae'r amgylchedd yn groesawgar ac yn lân. Mae cynllun yr ystafell chwarae wedi'i drefnu mewn ffordd sylfaenol. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu teganau, adnoddau a chyfarpar sy'n addas ar gyfer ystod oedran y plant sy'n cael gofal.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r rhan fwyaf o'r ardaloedd yn ei lleoliad yn briodol. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau a chyrraedd y safonau.

| Llesiant | Digonol |
|---|---|

Mae'r plant yn fodlon eu byd ac yn mynegi mwynhad. Maent yn dechrau gwneud ffrindiau ac maent yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol.

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus; maent yn mwynhau cyflwyno eu hunain a dangos yr hyn y maent yn hoffi ei wneud. Er enghraifft, mae un plentyn yn mwynhau dangos sut mae'n defnyddio tegan 'lightsaber' a dweud, yn llawn cyffro, ei fod yn 'storm trooper'. Mae ffrindiau yn mwynhau gofalu am y doliau a dangos sut i baratoi potel fwydo'r doliau. Cafodd y plant hwyl yn siarad â'r gwarchodwr plant am barti pen-blwydd eu ffrind a gwnaethant ddweud bod y gacen yn flasus.

Mae'r plant yn setlo'n gyflym am eu bod yn cael eu cyfarch mewn ffordd gyfeillgar gan y gwarchodwr plant. Maent yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol. Maent yn gofyn i'r gwarchodwr plant yn gwrtais am eu hesgidiau glaw pinc wrth iddynt baratoi i fynd am dro i gasglu eu ffrindiau eraill o'r ysgol.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r gwarchodwr plant. Maent yn cydweithredu'n dda ac yn ymarfer rheolau diogelwch ar y ffyrdd wrth iddynt groesi'r ffordd i'r ysgol ac oddi yno. Mae'r plant yn mwynhau cymdeithasu amser bwyd; maent yn eistedd wrth y bwrdd yn aeddfed ac yn ymddwyn yn gwrtais. Maent yn dysgu i rannu a chymryd eu tro yn briodol. Er enghraifft, yn ystod gêm cadw siop, cymerodd ffrindiau eu tro i weithio ar y til a rhannu'r propiau bwyd i fasgedi. Roeddent yn gweithio'n dda fel tîm wrth gwblhau pos llawr enfawr, a gwnaethant gymryd eu tro i enwi'r gwrthrychau ar y darnau pos.

Yn gyffredinol, mae'r plant yn dangos diddordeb ac yn ymgysylltu â'u gweithgareddau chwarae a dysgu. Maent yn mwynhau gwisgo eu doliau mewn dillad gwahanol, a dangos sut gallant wneud i'r ddol gerdded ar hyd y llawr wrth afael yn ei llaw. Mae ffrindiau yn cael hwyl yn trefnu'r set llestri te, ac maent yn gwahodd y gwarchodwr plant i ymuno yn eu chwarae gan ofyn iddi a hoffai gael paned o de neu gacen. Maent yn cyfrifo faint mae'r eitemau'n ei gostio ac yn ymarfer eu sgiliau cyfrif wrth iddynt gyfrif y darnau arian tegan cyn eu rhoi yn y til. Mae'r plant yn mwynhau eistedd gyda'i gilydd i ddarllen detholiad o lyfrau. Maent yn siarad am y lluniau ac yn ymddiddori yn y stori sy'n cael ei darllen iddynt gan y gwarchodwr plant.

Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth mewn ffordd addas. Yn ystod amseroedd bwyd, mae'r plant yn bwydo eu hunain gan ddefnyddio eu cyllyll a ffyrc yn fedrus. Fodd bynnag, caiff cyfleoedd eu colli yn ystod amseroedd bwyd i'r plant weini eu hunain. Maent yn paratoi eu hunain ar gyfer rhywfaint o amser tawel yn addas drwy osod y bagiau ffa a'r blancedi er mwyn gorffwys. Mae'r plant yn gwneud y rhan fwyaf o bethau drostynt eu hunain gydag anogaeth briodol gan y gwarchodwr plant.

## Gofal a Datblygiad — Digonol

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu gofal mewn ffordd gynnes, gyfeillgar a gofalgar. Mae'r gwarchodwr plant yn gwerthfawrogi ymdrechion y plant ac yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau.

Mae'r gwarchodwr plant yn datblygu ei dealltwriaeth o'i chyfrifoldebau rheoliadol ac mae'n gweithio tuag at roi'r mwyafrif o'r polisïau a'r gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn addas. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau. Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar fwyd a maeth yn rhannol drwy roi prydau iach i'r plant, ond mae'n cynnig diod ffrwythau i'w yfed yn hytrach na dewis mwy iach fel llaeth neu ddŵr. Nid yw'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn gallu cael gafael ar ddŵr yfed ffres yn hawdd drwy gydol y sesiwn er mwyn gwneud yn siŵr eu bod wedi eu hydradu. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth sylfaenol o'r gweithdrefnau diogelu. Mae wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu sy'n addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n cael gofal. Mae wrthi'n cwblhau hyfforddiant ar ddiogelwch bwyd a hylendid ar hyn o bryd.

Nid yw'r gwarchodwr plant yn dilyn y canllawiau cyfredol ar reoli heintiau mewn perthynas â newid cewynnau, na gweithdrefnau golchi dwylo. Er enghraifft, nid yw'n defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) yn gyson ac, yn ystod ein hymweliad, ni wnaeth y plant olchi eu dwylo ar ôl cyrraedd o'r ysgol a chyn amser bwyd i'w helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn briodol.  Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Ni wnaeth y gwarchodwr plant gyflwyno tystiolaeth o ddamweiniau a digwyddiadau. Pan wnaethom drafod yr hyn a ddywedodd y plant wrthym â'r gwarchodwr plant, roedd yn amlwg bod damweiniau wedi digwydd, ond nid oeddent wedi cael eu cofnodi'n ffurfiol er mwyn canfod yn union beth ddigwyddodd ac i ddangos cydnabyddiaeth rhieni / gofalwyr eu bod wedi cael eu hysbysu. Nid yw'r gwarchodwr plant wedi sicrhau bod ffurflenni cydsynio ffurfiol i rieni / gofalwyr eu cwblhau cyn iddi roi meddyginiaeth i'r plant. Mae'n cofnodi presenoldeb y plant ond nid yw'n cynnwys eu horiau presenoldeb dyddiol i ddangos ei bod yn sicrhau'r gymhareb gywir rhwng oedolion a phlant bob dydd. Nid yw'r gwarchodwr plant wedi casglu'r holl wybodaeth ofynnol am y plant i sicrhau y gall ddiwallu eu hanghenion unigol yn llawn. Yn ystod ein hymweliad, ni allai'r gwarchodwr plant ddod o hyd i ffeil bersonol plentyn yr oedd yn gofalu amdano y diwrnod hwnnw. Felly nid oedd yr holl wybodaeth ofynnol wrth law ganddi i sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael eu diwallu'n llawn. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y plant ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r materion hyn.

Mae'r gwarchodwr plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol, ac mae'r plant yn ymgysylltu'n dda. Mae ganddi ddull ymatebol o gynllunio gweithgareddau ac mae'n ymateb i geisiadau'r plant mewn modd sensitif ac amserol. Mae'r gwarchodwr plant yn ymgysylltu'n dda â'r plant pan fyddant yn chwarae ac mae'n sicrhau eu bod yn garedig i'w ffrindiau.

Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu gweithgareddau digonol ac yn ymateb yn gadarnhaol pan fydd y plant yn ei gwahodd i chwarae. Nid yw'r gwarchodwr plant yn cofnodi arsylwadau ar gynnydd y plant i'w helpu i gynllunio ar gyfer eu camau dysgu nesaf. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu cyfleoedd ar gyfer amser stori ac mae'n darllen y stori wrth bwysau'r plentyn. Mae'n annog y plant i ymarfer eu sgiliau rhifedd wrth iddynt ddatblygu golygfa chwarae rôl fel ceidwad siop a chwsmer. Mae'r gwarchodwr plant yn cefnogi'r plant i ddatblygu eu sgiliau iaith yn dda, wrth iddynt greu golygfa chwarae rôl am weithio mewn caffi.  Mae'n mynd ati i annog y plant i ddefnyddio amrywiaeth o bropiau i ehangu eu creadigrwydd a'u dychymyg.

## Yr Amgylchedd **Digonol**

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân, yn groesawgar ac mewn cyflwr addas. Mae angen gwella cynllun yr ystafell chwarae er mwyn hyrwyddo annibyniaeth y plant ymhellach a'u galluogi i wneud eu dewisiadau eu hunain am yr eitemau y maent am chwarae â nhw. Mae gan y gwarchodwr plant ardal chwarae awyr agored fawr, ond ni chafodd ei defnyddio yn ystod yr ymweliad arolygu.

Nid yw'r gwarchodwr plant yn cadw cofnod cyson o ymwelwyr. Mae asesiadau risg ar waith ganddi, ond nid ydynt yn adlewyrchu'r safle, y gweithgareddau a'r gwibdeithiau'n llawn. Nid ydynt yn nodi'r peryglon posibl i'r plant yn llawn na'r mesurau y byddai'n eu rhoi ar waith i reoli'r risgiau hyn bob dydd. Mae'r gwarchodwr plant yn goruchwylio'r plant yn addas y rhan fwyaf o'r amser, ac mae'n sicrhau eu bod yn ymwybodol o reolau diogelwch y ffyrdd pan fydd hi'n mynd â nhw i'r ysgol ac oddi yno. Fodd bynnag, nid yw'r risgiau posibl i'r plant pan fydd y gwarchodwr plant yn gadael yr ystafell chwarae i helpu plant i fynd i'r toiled yn yr ystafell ymolchi i fyny'r grisiau wedi'u cynnwys yn yr asesiadau risg. Er enghraifft, nid oes giatiau diogelwch i atal y plant rhag crwydro'r ardal ar y llawr gwaelod yn rhydd pan fydd y gwarchodwr plant wedi'u gadael ar eu pen eu hunain. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y plant, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn. Nid yw'r gwarchodwr plant yn cynnal ymarferion tân ac nid yw wedi sicrhau y caiff gwiriadau iechyd a diogelwch eu cynnal. Er enghraifft, nid oedd y system wresogi olew wedi cael gwiriad diogelwch ers iddi gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn 2016. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y plant, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r mater hwn. Nid yw'r gwarchodwr plant wedi cwblhau dogfen Llywodraeth Cymru, ‘Diogelwch tân: asesiad risg ar gyfer safleoedd gwarchod plant’. Roedd dyddiad defnyddio rhai o'r eitemau yn y blwch cymorth cyntaf wedi mynd heibio.

Nid oes ardal ddynodedig i'r plant storio eu heitemau personol, a chaiff y rhain eu rhoi mewn pentwr ar waelod y grisiau. Nid yw hyn yn creu ymdeimlad o berthyn i'r plant ac nid yw'n eu helpu i fod yn annibynnol.

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu teganau ac adnoddau addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n cael gofal, ac mae rhywfaint o ddodrefn o faint priodol ar gael iddynt. Mae angen trefnu'r ffordd y caiff teganau ac adnoddau eu storio dan do. Mae diffyg deunyddiau naturiol ac eitemau wedi'u hailgylchu i ddatblygu chwilfrydedd y plant a'u helpu i ymarfer defnyddio eu synhwyrau. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu rhywfaint o ddoliau ac adnoddau sy'n adlewyrchu gwahanol ddiwylliannau. Mae dewis da o lyfrau ar gael hefyd, ac mae wedi'u harddangos yn ddeniadol i annog y plant i'w darllen.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth Digonol

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli'r rhan fwyaf o'r ardaloedd yn ei lleoliad yn addas. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau a chyrraedd y safonau.

Mae'r gwarchodwr plant wedi gwella ei datganiad o ddiben fel ei fod yn cynnwys y wybodaeth ofynnol ac yn rhoi gwybodaeth glir i rieni / gofalwyr am yr hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Mae'r rhan fwyaf o'r polisïau a'r gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd, ond mae rhywfaint o'r wybodaeth ynddynt wedi dyddio. Er enghraifft, nid yw'r polisi diogelu yn seiliedig ar y ddeddfwriaeth a'r gweithdrefnau cyfredol yng Nghymru, ac mae angen addasu manylion cyswllt AGC yn y polisi cwynion. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth addas o'i chyfrifoldeb i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae'r gwarchodwr plant wedi cyflwyno'r datganiad asesu gwasanaeth i AGC o fewn yr amserlen ofynnol.

Mis Medi 2023 yw'r dyddiad ar yr adroddiad yn adolygu ansawdd y gofal, ond nid yw'n myfyrio ar y sylwadau a gasglwyd gan y rhai sy'n defnyddio'r lleoliad, er mwyn gwerthuso'r lleoliad yn llawn a nodi gwelliannau er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i'r plant.

Nid oes gan y gwarchodwr plant na'r bobl sy'n byw yn y lleoliad wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i ddangos eu bod yn addas i ddiogelu'r plant. Mae hyn yn peri risg i iechyd a llesiant y plant, ac felly rydym wedi cyhoeddi hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr weithredu ar unwaith i ymdrin â'r materion hyn.

Darparodd y gwarchodwr plant luniau o'r plant yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau awyr agored ac ymweliadau ag ardaloedd lleol i godi eu hymwybyddiaeth o'u hamgylchedd a gwella eu sgiliau cymdeithasol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 25 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod yr asesiadau risg yn adlewyrchu'r safle, y gweithgareddau a'r gwibdeithiau y mae'r plant yn cymryd rhan ynddynt yn llawn. Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod y rhain yn cael eu cwblhau'n flynyddol a bod unrhyw newidiadau i'r safle neu anghenion y plant yn cael eu hadolygu. Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod digon o fesurau ar waith i leihau'r risgiau a nodwyd ac y cynhelir gwiriadau iechyd a diogelwch dyddiol cyn i'r plant gyrraedd y lleoliad. | Newydd |
| 30 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau ei bod yn cadw cofnod dyddiol o enwau'r plant a'u horiau presenoldeb. Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau ei bod yn cadw cofnodion ffurfiol o ddamweiniau a | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | digwyddiadau, a'u bod yn cael eu cydnabod gan y rhieni / gofalwyr i ddangos eu bod wedi cael gwybod amdanynt. Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod cofnodion meddyginiaeth a ffurflenni cydsynio rhieni / gofalwyr ar gyfer rhoi meddyginiaeth wedi'u cwblhau fel eu bod yn cynnwys manylion clir. Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau ei bod wedi casglu'r holl wybodaeth ofynnol yng nghofnodion unigol y plant a bod y wybodaeth hon ar gael yn hawdd. | |
| 38 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau ei bod yn cynnal ymarferion ar gyfer gwagio'r adeilad os bydd tân bob 6 mis o leiaf, gan gydnabod bod y plant yn cael budd o ymarferion mwy rheolaidd a bod y cofnodion hyn yn cael eu cadw mewn cofnodlyfr tân. Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod y system wresogi olew yn cael ei harchwilio'n rheolaidd er mwyn canfod unrhyw broblemau ac atal peryglon posibl i'r plant. | Newydd |
| 6 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod ganddi dystysgrif fanwl gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau ei bod yn gwneud trefniadau ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i gyflwyno ei thystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Newydd |
| 20 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod gan bob person sydd wedi cyrraedd 16 mlwydd oed ac yn byw yn y fangre berthnasol dystysgrif fanwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael os bydd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn gofyn amdani. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

**Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella**

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| 25 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod y gweithdrefnau golchi dwylo a newid cewynnau yn unol â Chanllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru ar Atal a Rheoli Heintiau (2019) ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant (0-5 oed) yng Nghymru (Meithrinfeydd, Gwarchod Plant a Chylchoedd Chwarae). | Newydd |
| 22 | Rhaid i'r gwarchodwr plant sicrhau bod y polisi diogelu yn seiliedig ar Weithdrefnau Diogelu Cymru. Wrth greu'r polisi, mae'n rhaid i'r gwarchodwr plant fod yn gyfarwydd â chanllaw statudol Llywodraeth Cymru ar ddiogelu plant yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau y caiff arsylwadau ar gynnydd y plant eu cofnodi er mwyn helpu i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer chwarae, dysgu a datblygiad y plant. |
| Safon 12 - Bwyd a diod | Sicrhau bod canllawiau Bwyd a Maeth Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau gofal plant yn cael eu rhoi ar waith, a sicrhau bod dŵr yfed ffres ar gael yn hawdd i'r plant bob amser. |
| Safon 18 - Sicrhau ansawdd | Sicrhau bod safbwyntiau'r plant, rhieni / gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill yn cael eu hystyried wrth adolygu ansawdd y gofal, er mwyn gwerthuso'r lleoliad yn llawn a nodi'r gwelliannau y gellid eu gwneud i sicrhau canlyniadau gwell i'r plant. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/06/2024